OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2006 Rhif 3392 (Cy.311)

ARDRETHU A PHRISIO, CYMRU

Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Hysbysiadau Galw am Dalu a Rhyddhad yn ôl Disgresiwn) (Cymru) (Diwygio) 2006

Wedi'u gwneud - -	*12 Rhagfyr 2006*
Yn dod i rym - -	*1 Ebrill 2007*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 47(8) a 62 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988(**1**) a pharagraffau 1 a 2(2) o Atodlen 9 iddi ac a freiniwyd bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru.

Enwi, cymhwyso a chychwyn

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Hysbysiadau Galw am Dalu a Rhyddhad yn ôl Disgresiwn) (Cymru) (Diwygio) 2006 a deuant i rym ar 1 Ebrill 2007.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Diwygio Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Rhyddhad yn ôl Disgresiwn) 1989

2. Yn rheoliad 2 o Reoliadau Ardrethu Annomestig (Rhyddhad yn ôl Disgresiwn) 1989(**2**) mewnosoder ar y diwedd —

> "(6) Paragraph (3) does not apply where the billing authority revokes a decision or makes a relevant variation of a determination as a consequence only of the commencement of section 63 (Rural settlement lists etc.) of the Local Government Act 2003(**3**).".

Diwygio Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Cymru) 1993

3.—(1) Mae Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Cymru)1993(**4**) wedi'u diwygio fel a ganlyn.

(**1**) 1988 p.41. Cafodd y pwerau hyn eu datganoli, o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672), *gweler* y cyfeiriad at Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1999 yn Atodlen 1.
(**2**) O.S. 1989/1059, a ddiwygiwyd gan O.S. 1993/616.
(**3**) 2003 c. 26. Daw adran 63 i rym ar 1 Ebrill 2007.
(**4**) O.S. 1993/252, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 1995/284, 1996/311, 1996/1880, 1997/356, 1998/155, 2000/794 (Cy.30), 2003/414 (Cy.59) a 2005/256 (Cy.22).

(2) Ym mharagraff 5(a) o Atodlen 1, yn lle "section 43(5)" rhodder "section 43(4A)(b), (5)".

(3) Ym mharagraff 1 o Ran I o Atodlen 2—

(a) Yn nodyn o dan y pennawd "Rural Rate Relief"—

(i) ar ôl y geiriau "From 1 April 2002" rhodder "until 31 March 2007"; a

(ii) mae trydydd paragraff wedi'i ychwanegu—

"From 1 April 2007 the Rural Rate Relief scheme is revoked and replaced by the National Assembly for Wales's Small Business Rate Relief scheme mentioned below.".

(b) Ar y diwedd, ychwaneger y canlynol —

"**National Assembly for Wales's Small Business Rate Relief**

From 1 April 2007 occupiers of —

(a) certain hereditaments with a rateable value of £2,000 or less are entitled to rate relief at 50% of the full rates bill;

(b) certain hereditaments with a rateable value of more than £2,000 but not more than £5,000 are entitled to rate relief at 25% of the full rates bill;

(c) post offices (and hereditaments which include a post office) with a rateable value of not more than £9,000 are entitled to rate relief at 100% of the full rates bill; a

(d) post offices (and hereditaments which include a post office) with a rateable value of more than £9,000 but not more than £12,000 are entitled to rate relief at 50% of the full rates bill.

In the cases of (a), (b) and (d) above billing authorities have discretion to provide relief in respect of all or part of the remaining 50% or 75% as the case may be.".

(4) Ym mharagraff 1 o Ran II o Atodlen 2—

(a) Yn y nodyn o dan y pennawd "Rhyddhad Ardrethi Gwledig" —

(i) ar ôl y geiriau "O 1 Ebrill 2002 ymlaen" mewnosoder "hyd at 31 Mawrth 2007"; a

(ii) mae trydydd paragraff wedi'i ychwanegu—

"O 1 Ebrill 2007 ymlaen mae'r cynllun Rhyddhad Ardrethi Gwledig wedi'i ddiddymu ac fe'i disodlir gan gynllun Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach Cynulliad Cenedlaethol Cymru a grybwyllir isod."

(b) Ar y diwedd, ychwaneger y canlynol —

"**Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

O 1 Ebrill 2007 ymlaen bydd gan feddianwyr—

(a) hereditamentau penodol ac iddynt werth ardrethol o £2,000 neu lai yr hawl i ryddhad ardrethi o 50% o'r bil ardrethi llawn;

(b) hereditamentau penodol ac iddynt werth ardrethol o fwy na £2,000 ond nid mwy na £5,000 yr hawl i ryddhad ardrethi o 25% o'r bil ardrethi llawn;

(c) swyddfeydd post (a hereditamentau sy'n cynnwys swyddfa bost) ac iddynt werth ardrethol o nid mwy na £9,000 yr hawl i ryddhad ardrethi o 100% o'r bil ardrethi llawn;